"O'r fath newid rhyfeddol"

(Ymddiriedaeth / penderfyniad)

Cyrhaeddodd Jason adref. Lluchiodd ei fag i'r gornel a rhedodd yn wyllt i fyny'r grisiau i'w ystafell wely. Roedd wedi cael ei wrthod i chwarae rygbi gan yn tîm cartref – tîm rygbi'r gynghrair yn Leeds. Gorweddodd ar y gwely a'r dagrau'n powlio i lawr ei ruddiau. Mae'n rhaid ei fod wedi dechrau cysgu ond, yn sydyn, clywodd sŵn bloeddio a rhegi o'r ystafell fyw. Doedd hyn ddim byd newydd ar yr aelwyd.

Ei lystad oedd wrthi'n ymosod ar ei fam. Rhedodd i lawr y grisiau i geisio achub ei fam druan. Ond cafodd ddwrn ynghanol ei wyneb a syrthiodd ar lawr. Dyna lle roedd ei fam yn ceisio'i godi ar ei draed a'i lystad yn ei gicio'n ddidrugaredd. Cododd ar ei draed, a rhedodd allan i'r stryd i osgoi cynddaredd ei lystad. Aeth yn syth i siop y gornel a dwyn nwyddau, yn greision a bisgedi. Dyma oedd ei hanes beunyddiol – brwydrau ar yr aelwyd ac yntau'n chwilio am gysur trwy ddwyn ar y strydoedd.

Ond, yn raddol, newidiodd ei fywyd. Daeth yn chwaraewr rygbi gyda thîm Sale yn ardal Manceinion a phan oedd yn 19 oed daeth yn chwaraewr rhyngwladol gyda thîm rygbi Lloegr. Newidiodd ei fywyd yn gyfan gwbl. Dechreuodd yfed yn drwm a hynny bob nos. Byddai'n treulio oriau'r nos mewn partïon, a hynny hyd oriau mân y bore. Roedd ganddo blentyn bach ac un arall ar y ffordd.

Ar ôl cael gormod i'w yfed byddai'n ymosod ar bawb a phopeth. Edrychai'n ddyn ifanc hyderus a chaled. Ond, er ei fod yn ymddangos yn hyderus, yn y bôn roedd yn greadur unig ac ansicr iawn. Yr alcohol oedd yn rhoi'r hyder a'r sicrwydd iddo.

Pan oedd yn chwarae gyda thîm rygbi'r gynghrair yn Wigan roedd wedi gwneud ffrindiau efo un o'r chwaraewyr. Dyn gwahanol iawn oedd Va'aiga Tuigamala. Bob amser, byddai'n hapus a llon. Un diwrnod roedd y ddau ohonyn nhw'n cael triniaeth yn yr ystafell driniaethau. Ar ôl sgwrsio am rai munudau dyma Va'aiga, ac yntau'n dal i orwedd ar y gwely, yn tynnu llyfr o'r bag oedd wrth ei ochr. Dechreuodd ddarllen y llyfr yn uchel dros yr ystafell. Doedd Jason ddim yn gwybod beth i'w ddweud. Yn y diwedd ddywedodd o ddim byd. Caeodd Va'aiga'r Beibl a'i roi yn ei fag.

Ymhen rhai dyddiau wedyn dechreuodd Jason holi Va'aiga

ynglŷn â'r llyfr roedd yn ei ddarllen yn yr ystafell driniaethau. Dywedodd Va'aiga ei fod yn darllen y Beibl bob cyfle a gâi. "Pam wyt ti'n darllen y Beibl yn gyson fel hyn?" gofynnodd Jason iddo wedyn. "Mae'r Beibl, a'r Testament Newydd yn benodol, yn rhoi hanes Iesu Grist i mi. Fel y gwyddost, efallai, bu Iesu farw ar y groes. Fe ddioddefodd lawer iawn. Bu farw dros bechodau pobl fel fi. Ond nid dyna ddiwedd y stori. Mae Iesu'n fyw heddiw. Mae Iesu yn ffrind agos iawn i mi ac mi rydw i wedi rhoi fy mywyd i gyd i Iesu." Bu Jason yn pendroni am ddyddiau am yr hyn a ddywedodd Va'aiga.

Yn raddol newidiodd ei fywyd yntau. Gwelodd nad car moethus, tŷ crand a digonedd o arian oedd ei angen pennaf ond perthynas efo Duw. Bellach mae bywyd Jason wedi newid yn gyfan gwbl. "Rydw i'n byw i Dduw yn awr lle bynnag y bydda i, ar y stryd, efo fy nheulu neu ar y cae rygbi. Rydw i'n gweddïo'n gyson." Ydi, mae Duw yn gallu newid eich bywyd a hynny er gwell.

Adnod: "Fy mab, moes i mi dy galon." Diarhebion 23:26

Gweddi: "O'r fath newid rhyfeddol a wnaed ynof fi, daeth Iesu i'm calon i fyw." Amen.

Trafod:

- Beth yn eich barn chi oedd yn gyfrifol am y newid a ddaeth i fywyd Jason?
- Ceisiwch gymharu ei fywyd cynnar â'i fywyd ar ôl iddo dderbyn Iesu Grist i'w fywyd.